



13. DR DA A'R DIEITHRIAID (Pob tymor)

Roedd Doctor Da'n feddyg enwog iawn. Deuai pobl o bedwar ban y byd ato am driniaeth.

Un dydd, wrth iddo gyrraedd adref canfu ddwy sach fawr hyll tu allan i ddrws ei dŷ.

'Bydd rhaid i mi gael gair â Huw ynglŷn â hyn. Ddylai o ddim gadael ei lanast tu allan i'r tŷ fel hyn,' meddai wrth ei wraig.

'Nid Huw sy'n gyfrifol,' atebodd Mrs Da. 'Mae'r ddwy sach yna'n perthyn i ddau glaf sy'n disgwyl am dy weld yn y feddygfa.'

'Cleifion! Doeddwn i ddim yn disgwyl unrhyw gleifion,' cuchiodd y meddyg. 'Gefaist ti eu henwau?'

'Fe *geisiais* i. Ond mae 'na broblem iaith. Yn ôl yr hyn a ddeallais i mae'n ymddangos yn debyg mai Fo-ddyn a Hi-ddyn yw eu henwau. A dweud y gwir,' gostyngodd Mrs Da ei llais, 'maen nhw'n rhyfedd braidd.'

Ac yn wir i chi, ychydig funudau'n ddiweddarach cyfarchwyd Dr Da gan ddau o'r dieithriaid rhyfeddaf iddo eu cyfarfod erioed.

Gŵr a gwraig oeddent. Roedd gan y ddau wallt hir blêr. Roeddent wedi'u gwisgo mewn crwyn anifail budr rhacs. Ac roedd y ddau mor gefngrwm nes bod eu dwylo bron â chyffwrdd y llawr wrth iddynt gerdded.

'Y sachau yna ydi'r drwg,' sibrydodd Mrs Da. 'Y Trueiniaid! Yn ôl y golwg sydd arnynt mae'n edrych yn debyg eu bod wedi treulio'u holl fywydau'n eu cario.'

Roedd gweld y cwpl yn peri loes calon i'r meddyg. Ond ar yr un pryd roedd yn ffyddiog y gallai eu helpu. Roedd Fo-ddyn a Hi-ddyn yn ymddangos fel pe baent yn ei ddeall ef. Ond y broblem oedd na allai ef eu deall hwy. Ceisiodd ei orau glas i ganfod o ble y daethant ond heb unrhyw lwc.

Eisteddodd wrth ei ddesg gan droi at raglen arbennig ar ei gyfrifiadur.

'Gwyliwch hyn,' meddai wrth ei gleifion.

Dwy neu dair clic a dyma ddau berson yn ymddangos ar y sgrîn – dau berson cam, yn amlwg yn dioddef hefo'u cefnau. Yna, i wneud y cyfan yn fwy real, ychwanegodd wallt blêr a charpiau at y ddau ffigur a ymddangosai ar y sgrîn.

Wrth iddynt eu hadnabod eu hunain ebychodd Fo-ddyn a Hi-ddyn gan droi i edrych ar ei gilydd.

'Dyna ni. Chi yw'r rhain,' amneidiodd y meddyg ei ben. 'Chi fel yr ydech chi nawr. Ond edrychwch beth dwi'n gallu ei wneud.'

Clic . . . clic Sythodd y ddau gorff. Clic. I ffwrdd â'r carpiau. Cliceti clic. I ffwrdd â hwy, gan redeg a neidio ar draws y sgrîn.

'Gwychibwsh!' bloeddiodd Fo-ddyn.

Doedd hi ddim yn rhy anodd dyfalu ystyr y gair hwn. 'Dyma rywbeth mwy gwychibwsh fyth,' gwenodd Dr Da. 'Gall yr hyn a welsoch ar y sgrîn ddigwydd yn go iawn. Mae cleifion cefngrwm o bedwar ban y byd wedi dod ataf fi, rhai a oedd prin yn gallu cerdded – ac mae pawb wedi gadael gan redeg a neidio.'

Pasiodd ddwy ffurflen iddynt ar draws y bwrdd.

'Y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw arwyddo'r ffurflenni hyn a chaf ddechrau eich trin.'

Gafaelodd Fo-ddyn mewn ysgrifbin.

'Wrth gwrs,' ategodd y meddyg, 'bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i gario'r hen sachau yna.'

Beth! Edrychodd Fo-ddyn ar Hi-ddyn, ac yn sydyn ymddangosai fel pe bai am newid ei feddwl.

‘Nwp,’ cuchiodd gan daro’r ysgrifbin ar y bwrdd.

‘Nwp,’ gwnaeth Hi-ddyn yn yr un modd.

‘Fe fydd yn werth yr ymdrech, wyddoch chi,’ meddai’r meddyg yn llawn anogaeth. Aeth draw at y cwpwrdd ffeilio gan ddychwelyd a llun yn ei law. ‘Edrychwch. Dyma lun o glaf cyn iddo gael triniaeth. Gallwch weld eich hunain mor gam yr oedd. Ond heddiw mae’n gryf ac yn iach. A dweud y gwir dacw fo allan yn fan acw’n gweithio yn yr ardd. Os hoffech chi fe wnafei ei alw i’r tŷ iddo gael dweud wrthyf chi ei hunan gymaint o wahaniaeth mae ’nhriniaeth i wedi ei wneud i’w fywyd.’

Ond parhau i ysgwyd eu pennau a wnâi Fo-ddyn a Hi-ddyn.

‘Efallai eu bod yn pryderu am arian,’ awgrymodd Mrs Da. ‘Efallai mai trwy gario sachau y maent yn ennill eu bywoliaeth. Efallai eu bod yn pryderu na allant fforddio talu i ti.’

Efallai fod Mrs Da wedi taro’i bys ar y botwm. ‘Gyfeillion, peidiwch â gadael i arian fod yn rhwystr,’ meddai’r meddyg yn daer. ‘Mae’n wir, mae’r driniaeth yn *ddrud*, ond rwyf fi’n ei gynnis yn rhad ac am ddim.’

Nawr roedd Fo-ddyn a Hi-ddyn mewn penbleth lwyr. I ddechrau, syllodd y ddau’n llawn dyhead ar y sgrîn, lle roedd y ddau ffigwr yn parhau i neidio a rhedeg yn ôl a blaen. Yna herciodd y ddau draw at y ffenest i syllu ar eu sachau.

‘Beth bynnag sydd gennych chi yn y sachau, does bosib ei fod yn fwy pwysig na’r dyfodol.’

Ond yn ôl pob golwg yr oedd.

Yn sydyn, penderfynodd Hi-ddyn na allai oddef gwylio’r ffigyrau ar y sgrîn ddim mwy. Diffoddod y cyfrifiadur tra gwasgodd Fo-ddyn y ffurflen yn belen gron a’i thafu ar lawr.

Doedd dim rhagor i’w ddweud.

‘Maen nhw’n lladd eu hunain. Am drasiedi,’ mwmiodd Dr Da wrth wyllo’r cwpl yn ymadael.

‘Mae’n dal yn bosib y gallent newid eu meddyliau. Edrych! Mae Huw yn sgwrsio â hwy,’ meddai Mrs Da.

Yn obeithiol, gwylodd y meddyg a’i wraig y garddwr yn ymbil ar y cwpl i ddod gydag ef i’r tŷ. Ond methu a wnaeth. Gydag ymdrech fawr cododd Fo-ddyn a Hi-ddyn eu sachau ar eu cefnau

ac i ffwrdd â hwy'n simsan i lawr y llwybr o'r ardd.

'Oes gen ti unrhyw syniad o ble y daethant?' holodd y meddyg Huw wedi iddynt adael.

'Wel, oes Mistar. Maen nhw'n dod o'r un lle â mi – gwlad y Cefngrymion. Mae pawb yng ngwlad y Cefngrymion yn gefngrwm oherwydd pwysau'r sachau maent yn eu cario.'

'Ond pam ar y ddaear fod pobl eisiau cario sachau trymion o amgylch trwy'r adeg? Beth sydd yn y sachau yma? Eu holl arian?'

Gwenodd y garddwr yn drist. 'Na, Mistar. Mae'r cefngrymion yn llenwi eu sachau â phethau mae ganddynt gywilydd ohonynt – y pethau nad ydynt am i neb arall eu gweld.'

'Wyt ti'n ceisio dweud fod Fo-ddyn a Hi-ddyn wedi gwrthod triniaeth oherwydd eu bod yn ofni y byddwn i'n agor eu sachau hwy?'

'Yn union,' amneidiodd Huw ei ben. 'Ond mae rheswm arall hefyd. Yng ngwlad y Cefngrymion mae gan bawb sach ac mae pawb yn gam. Maen nhw'n ofn bod yn wahanol i'w ffrindiau.'

HYD: 6 munud. Gall y stori gael ei hadrodd ar ffurf meim (pump o bobl a storiwr).

NEGES: Mae Iesu'n maddau pechod ac yn gwneud bywydau sydd wedi eu difetha gan bechod yn gyflawn. Pa fath o bethau sy'n ein rhwystro ni rhag derbyn y bywyd newydd hwn?

DARLLEN: Ioan 3: 16–21; 1 Ioan 1: 9